# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Conner's Place Ltd.**

**Llandudno**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Conner's Place Ltd.

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Conner's Place Ltd. |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Mai 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o'u dewis a gallant ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Mae'r staff gofal yn deall anghenion y bobl ac yn cael strategaethau o ran sut y dylid darparu gofal a chymorth iddynt. Mae'r broses cyn derbyn yn asesu addasrwydd y lleoliad ac yn ystyried a yw pobl yn gydnaws â'i gilydd. Defnyddir y wybodaeth i lywio asesiad y darparwr, cynlluniau personol a'r asesiadau risg. Gwnaed gwelliannau i'r meysydd blaenorol a nodwyd fel meysydd i'w gwella ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r cartref yn lân, yn fawr, mewn cyflwr da ac mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli. Caiff gwaith cynnal a chadw a gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau. Mae darparwr y gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau recriwtio diogel ac mae staff gofal newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol. Mae'r staff gofal yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a roddir gan y rheolwr, ac maent yn cael sesiynau goruchwylio a chyfleoedd hyfforddiant. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cwblhau'r archwiliadau monitro ansawdd y gofal. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth yn gywir yn y llyfr Cyffuriau a Reolir a threfniadau goruchwylio cadarn yr Unigolyn Cyfrifol ar y prosesau archwilio a monitro ansawdd y gofal.

## Llesiant

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu dewisiadau bywyd o ddydd i ddydd ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Mae system gweithwyr allweddol ar waith ac mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl naill ai ar lafar neu drwy ddefnyddio systemau cyfathrebu heb gymorth a gyda chymorth. Gwelsom y staff gofal yn trin y bobl â pharch a thosturi. Maent yn cefnogi'r bobl i wneud dewisiadau ynghylch eu harferion a'r math o weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Wrth wneud cwyn neu benderfyniad am eu gofal, gall y bobl gael cymorth a chyngor drwy'r staff gofal, eu teuluoedd / cynrychiolwyr, gwasanaethau comisiynu a gwasanaeth eirioli annibynnol.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl, ond ni ellir darparu gofal a chymorth yn Gymraeg yn llawn. Gall y bobl ddefnyddio gwasanaethau iechyd cymunedol ac maent yn cael gofal meddygol prydlon pan fo angen. Caiff eu hanghenion cymorth corfforol, emosiynol ac ymddygiadol a'u llesiant iechyd meddwl eu hystyried. Er y caiff diwylliant Cymru ei ddathlu, nid yw darparwr y gwasanaeth yn gallu darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd gan nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Dylai darparwr y gwasanaeth gyfeirio at ddogfen Llywodraeth Cymru ‘Mwy na Geiriau: Y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' i gael rhagor o wybodaeth.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau diogelu a gweithredol perthnasol ar waith. Mae darparwr y gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau recriwtio manwl ac mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn deall y broses ddiogelu a chwythu'r chwiban ac nad oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch a llesiant y bobl.

Caiff y bobl eu hannog i fyw bywyd iach ac i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol a gallant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden yn y gymuned. Cânt eu hannog i gymryd rhan mewn ymarferion corfforol ac i ddilyn deiet amrywiol a chytbwys. Ceir ffocws ar y bobl yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac yn datblygu eu profiadau personol, eu hyder, a'u sgiliau sylfaenol a byw yn annibynnol. Mae'r staff gofal yn cefnogi gweithgareddau arferol y bobl a all gynnwys mynd i leoliadau addysg/gwaith a chwblhau gwaith tŷ.

Mae'r llety yn addas, yn ddiogel ac yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu llesiant. Mae'r ystafelloedd yn lân ac wedi'u dodrefnu'n addas. Gellir addurno ystafelloedd y bobl yn unol â'u dewis ac maent yn cynnwys eitemau personol sydd o bwys iddynt. Gallant gael gafael ar gyfarpar a chyfleusterau amrywiol sy'n annog ac yn datblygu eu sgiliau byw yn annibynnol. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol eu cwblhau, ac maent yn nodi bod gwaith atgyweirio a gwelliannau yn cael eu cwblhau pan fo angen.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn nodi sut y dylid darparu gofal a chymorth i'r bobl a sut y gellir cyflawni canlyniadau personol. Mae'r wybodaeth atgyfeirio a gesglir ymlaen llaw gan yr awdurdod lleol sy'n comisiynu a'r darparwr gofal iechyd, yn llywio proses cyn derbyn y gwasanaeth. Caiff asesiadau'r darparwr, cynlluniau personol ac asesiadau risg eu cwblhau, a rhoddir ystyriaeth i anghenion gofal a chymorth y bobl, addasrwydd y lleoliad a chydnawsedd ag eraill. Gwnaed gwelliant sylweddol gan y darparwr gwasanaeth wrth ddatblygu'r asesiad darparwr ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion mewn perthynas â nodau personol a chyflawniadau'r bobl, a sut y dylid darparu ac adolygu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau y gwrandewir ar y bobl. Ar adegau, gall fod yn anodd i rai o'r bobl gyfathrebu eu hanghenion i'r tîm staff gofal oherwydd eu lefel dealltwriaeth a'u sgiliau cyfathrebu cyfyngedig. Caiff y bobl eu hannog i gyfathrebu o fewn eu gallu a gallant ddefnyddio systemau cyfathrebu amgen fel 'PECS' (System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau), iaith arwyddion Makaton a chardiau emosiwn. Mae hyn yn galluogi'r staff gofal i hwyluso dewisiadau a dymuniadau'r bobl. Gall y bobl ddefnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol hefyd.

Mae cyngor a chymorth priodol ar gael i'r bobl i hybu eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Maent wedi cofrestru â darparwyr gofal iechyd sylfaenol lleol, ac maent yn cael triniaeth a gofal meddygol prydlon pan fo angen. Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r siartiau cofnodion rhoi meddyginiaeth ers yr arolygiad diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae'r trefniadau cofnodi gwybodaeth, archwilio, a chyfrifoldeb rhoi gwybod am anghysondebau yn y llyfr Cyffuriau a Reolir yn anghyson. Rydym wedi nodi hyn fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth weithredu i ddatrys hyn. Byddwn yn ystyried hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban perthnasol ar waith. Gall y staff gofal gael gafael ar bolisïau diogelu a chwythu'r chwiban darparwr y gwasanaeth ac maent yn cwblhau hyfforddiant diogelu. Dywedodd y staff gofal wrthym nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch neu lesiant y bobl. Caiff ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu cwblhau pan fo angen, mae'r asesiadau risg yn cael eu diweddaru, a rhoddir gwybod am bryderon diogelu i'r tîm rheoli. Gwnaed gwelliant sylweddol gan y darparwr gwasanaeth wrth gyflwyno digwyddiadau hysbysadwy i Arolygiaeth Gofal Cymru mewn modd amserol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae darparwr y gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith a gall y staff gofal gael gafael ar bolisi rheoli heintiau darparwr y gwasanaeth, cynnyrch glanhau a chyfarpar diogelu personol. Mae cofnodion ysgrifenedig yn dangos bod profion o dymereddau dŵr poeth ac oer diogel yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac i sicrhau ymdeimlad o lesiant. Mae'r cartref wedi'i leoli mewn tref sy'n cynnwys siopau, cyfleusterau hamdden a gwasanaethau iechyd cyhoeddus. Gwnaethom edrych ar rai o'r ystafelloedd ar dri llawr yn y cartref, ac roeddent yn ymddangos yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Mae'r brif lolfa a'r ystafell fwyta yn cynnwys digon o seddau ac yn cynnig cyfleoedd i'r bobl fwyta a chymdeithasu gyda'i gilydd neu gael amser tawel. Roedd cyfarpar amrywiol yn y gegin a'r ystafell amlbwrpas er mwyn hybu sgiliau byw'n annibynnol y bobl. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd 'Da' ar hyn o bryd. Mae gan ystafelloedd gwely'r bobl gyfleusterau en-suite, maent wedi'u dodrefnu'n addas, ac yn cynnwys eitemau personol sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n bwysig iddynt. Hefyd, mae ystafelloedd gwely ar gael i'r staff gofal pan fyddant yn cyflawni dyletswyddau dros nos.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i ardaloedd yr ardd flaen a'r ardd gefn ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r ddwy ardal yn groesawgar, mewn cyflwr da, a chaiff y gofod sydd ar gael ei ddefnyddio'n dda. Mae gan yr ardd flaen iât newydd a phalmant addurnol newydd. Mae'r ardd gefn yn cynnwys adeilad ar wahân, sy'n cael ei ddefnyddio fel ystafell gelf/crefft/hobi ar hyn o bryd. Mae ganddo seddau cyfforddus, teledu, karaoke a system stereo. Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried gwneud newidiadau pellach drwy gyflwyno ardal synhwyraidd i'r ystafell. Mae gan yr ardd gefn ffens pren lliwgar, addurnol a phaneli sy'n cynnwys 'arfbais' wedi'i addurno gan y bobl sy'n byw yn y cartref a darluniau o atyniadau lleol a thirnodau. Hefyd, mae ganddi ardaloedd decin â digon o seddau, planwyr uchel, glaswellt ffug, pwll pysgod, ac ardal eistedd gysgodol â theledu. Mae bar smwddi yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle eu cwblhau. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn rhoi gwybod i'r tîm rheoli pan fo angen gwneud gwelliannau i rannau o'r cartref, a gwnaethant gadarnhau fod gwaith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau'n gyflym. Gall darparwr y gwasanaeth gael gafael ar unigolyn cynnal a chadw sy'n ymweld â'r cartref bron bob dydd. Dywedodd y tîm o staff wrthym fod darparwr y gwasanaeth yn cefnogi'r newidiadau sy'n cael eu gwneud yn y cartref. Gwnaethant siarad yn gadarnhaol am y buddsoddiadau ariannol a wnaed i'r cartref ac ansawdd y décor dan do a'r cyfleusterau awyr agored. Mae cofnodion ysgrifenedig yn cadarnhau y caiff profion eu cynnal ar gyfarpar ac offer trydanol, ac y caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau o fewn yr amserlenni a nodwyd. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a sensitif yn cael ei storio'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith sy'n cefnogi'r dasg o redeg y gwasanaeth. Ers yr arolygiad blaenorol, mae darparwr y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â materion mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cywirol a roddwyd ar waith fel rhan o'r broses uwchgyfeirio pryderon. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol, ac maent yn trafod materion gweithredol presennol ac amcanion y dyfodol. Er hyn, mae angen gwneud gwelliannau pellach i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei lywodraethu a'i oruchwylio'n gadarn ac yn gywir, yn seiliedig ar drefniadau archwilio a chofnodi'r cartref drwy broses ansawdd y gofal.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth drwy brosesau sicrhau ansawdd ac archwilio parhaus, ond mae angen gwneud gwelliannau pellach. Mae'r cofnodion ysgrifenedig a'r trafodaethau â'r staff gofal yn cadarnhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Maent yn cwblhau adroddiad bob tri mis ac adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Nid yw'r system sydd ar waith ar hyn o bryd yn dangos sut mae'r trefniadau goruchwylio yn gwella amcanion gweithredol yn systematig, fel rhan o gyfnod gwella ansawdd y gofal yn barhaus yn ddigonol nac yn effeithiol. Rydym wedi nodi hyn fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ddatrys hyn. Byddwn yn ystyried hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae niferoedd priodol o staff gofal addas a chymwysedig ar gael. Mae cofnodion rota'r staff yn dangos bod y bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion a threfniadau'r gwasanaeth comisiynu. Nid yw darparwr y gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth, ac mae bron â chyrraedd ei gapasiti staffio llawn ac mae ganddo grŵp o staff sefydlog. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac yn hapus i gwblhau shifftiau ychwanegol pryd bynnag y mae prinder staff ar y rota. Mae darparwr y gwasanaeth yn dilysu geirdaon cyflogaeth ac yn cwblhau gwiriadau recriwtio staff manwl. Mae aelodau newydd o'r staff gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu darparwr y gwasanaeth yn ogystal â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.

Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant. Yn gyffredinol, roedd cofnodion goruchwylio'r staff yn dangos bod sesiynau goruchwylio yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni a nodwyd. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd sesiynau goruchwylio wedi cael eu cwblhau fel y cynlluniwyd. Yn ôl yr hyn a welsom, nid oedd hyn wedi cael effaith negyddol ar y gofal a'r cymorth a roddwyd i'r bobl nac ar forâl y staff gofal. Cafodd y mater hwn ei drafod gyda'r tîm rheoli. Gwelsom y cafodd sesiynau goruchwylio ar gyfer y

dyfodol eu trefnu cyn yr arolygiad. Siaradodd y staff gofal yn gadarnhaol am y rheolwr, gan ei ddisgrifio yn *“Very good” a “Very supportive.* Dengys cofnodion hyfforddiant y staff fod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar-lein ar gael i'r staff gofal a chanmolir eu hansawdd. Caiff darparwr hyfforddiant allanol ei ddefnyddio i roi hyfforddiant wyneb yn wyneb.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Mae cofnodion anghyson yn y llyfr Cyffuriau a Reolir gan nad yw'r staff gofal bob amser yn llofnodi ddwywaith. Ar ben hynny, ni roddir gwybod am yr anghysondebau yn y llyfr Cyffuriau a Reolir wrth gwblhau cyfrifon gwirio stoc a chroesgyfeirio'r wybodaeth a'r cofnodion rhoi meddyginiaeth ar unwaith i'r tîm rheoli. Mae angen i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod proses archwilio gadarn ar waith a bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi yn y llyfr Cyffuriau a Reolir yn gywir bob amser. | Newydd |
| 80 | Mae cofnodion archwilio anghyson a chywir yn cael eu cwblhau fel rhan o ymweliadau archwilio a monitro ansawdd yr Unigolyn Cyfrifol, sy'n cael effaith ar effeithiolrwydd eu trefniadau goruchwylio'r gwasanaeth. Mae angen i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod proses archwilio gadarn ar waith a bod y wybodaeth a gesglir yn llywio gweithrediadau a phenderfyniadau y mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol weithredu arnynt, i sicrhau bod y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol ac i safon uchel. | Newydd |
| 60 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau hysbysadwy mewn modd amserol mewn perthynas â pherson sy'n byw yn y cartref ar bedwar achlysur gwahanol rhwng 20/02/2023 a 24/02/2023. Dylai darparwr y gwasanaeth roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau hysbysadwy drwy ddefnyddio'r porth hysbysu ar-lein ar unwaith, o fewn 24 awr i'r digwyddiad fel arfer. | Cyflawnwyd |
| 18 | Nododd yr arolygiad feysydd sy'n peri pryder mewn perthynas â methiant i gwblhau asesiad y darparwr ar gyfer pedwar unigolyn sydd wedi bod yn byw yn y cartref ers yr arolygiad diwethaf ar 16 Tachwedd 2021. Mae'n hanfodol bod asesiad y darparwr yn cael ei gwblhau o fewn saith diwrnod ar ôl dechrau darparu gofal a chymorth i unigolyn sy'n byw yn y cartref. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gynnwys yr unigolyn (lle bynnag y bo'n bosibl), yr awdurdod lleoli (os yw'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolydd, ac mae'n rhaid adolygu asesiad y darparwr yn barhaus a'i adolygu yn ôl yr angen. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 58 | Yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw at feysydd sy'n peri pryder o ran effeithiolrwydd y prosesau meddyginiaeth presennol sydd ar waith a ph'un a yw'r gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn ai peidio. Gall anghysondebau a chadw cofnodion yn anghywir ar siartiau cofnodion rhoi meddyginiaeth arwain at ganlyniadau niweidiol i'r bobl sy'n byw yn y cartref yn ogystal â'r tîm staff gofal. Mae'n hanfodol bod asesiad risg yn cael ei gwblhau wrth gefnogi'r bobl sydd am gymryd eu meddyginiaeth eu hunain. | Cyflawnwyd |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/06/2024